Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cynllun Datblygu Lleol 2 (2017 – 2033)

# Adborth o'r Gweithdy i Randdeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned ar yr Ymgynghoriad ar yr Opsiynau Strategol

Medi 2018

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| CDUSB | Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro 2000-2016 |
| CDLl / CDLl (2) | Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Lleol (2) |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| CSP | Cyngor Sir Penfro |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Mabwysiadwyd | Mabwysiadir y Cynllun Datblygu Lleol pan fydd Cyfarfod Cyngor yr Awdurdod yn penderfynu mai hwn fydd y Cynllun Datblygu ar gyfer y Sir ac y bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu presennol. |
| Tai Fforddiadwy | Datblygiad preswyl o dai i'w gwerthu neu eu rhentu yn is na phrisiau'r farchnad a'u cadw fel rhai fforddiadwy yn barhaus |
| Dyraniad Tai Fforddiadwy | Tir a neilltuwyd ar gyfer tai fforddiadwy, naill ai i berchnogion cartrefi am bris isel neu i'w rhentu. |
| Argaeledd a'r modd y gellir cyflenwi tir | Mae'r tir sydd ar gael yn cynnwys tirfeddiannwr sy'n fodlon datblygu neu werthu tir i'w ddatblygu. Mae'r 'modd y gellir cyflenwi tir' yn ymwneud â hyfywedd economaidd dod â safle ymlaen |
| Cefn Gwlad | Tir y tu allan i aneddiadau a nodwyd yn yr Hierarchaeth Aneddiadau |
| Cynllun Adnau | Drafft llawn o'r Cynllun sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y Cyfnod Adneuo. |
| Dyraniad Tai | Safleoedd datblygu preswyl ar gyfer o leiaf 5 uned ac a ddangosir yn y Cynllun Datblygu |
| Seilwaith | Mae seilwaith yn cwmpasu cyflenwadau pŵer, cyflenwad dŵr, dulliau o waredu carthffosiaeth neu ddŵr wyneb, ffyrdd a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill, telathrebu a chyfleusterau sy'n ofynnol fel fframwaith ar gyfer datblygu. |
| Tai i'r Farchnad | Tai ar werth am brisiau'r farchnad (gall hyn gynnwys hunan-adeiladu neu dai a adeiladir yn ôl y gofyn). |
| Mewnlenwi a thalgrynnu | Dyma pan fo datblygiadau tai yn digwydd mewn lleoliad lle nad oes ffin aneddiadau. Mewn lleoliadau o'r fath, efallai y bydd tai newydd yn cael eu caniatáu lle mae hyn rhwng y bylchau presennol o eiddo 'mewnlenwi' neu lle mae'n 'talgrynnu' ymyl anheddiad. |
| 'Cynllunio trwy Apêl' | Cynigion datblygu ad hoc a ddaw ymlaen yn absenoldeb strategaeth ddatblygu i arwain datblygiad |
| Yr Opsiwn a Ffafrir | Yr opsiwn unigol neu'r opsiwn hybrid sy'n deillio o ystyried ystod o opsiynau neu faterion yn dilyn ymgynghori. |

| | |
|---|---|
| Strategaeth a Ffafrir | Y ddogfen strategaeth ffurfiol gyntaf ar gyfer adolygu'r CDLl sy'n nodi'r fframwaith a'r polisïau cyffredinol a fydd yn arwain y polisïau a'r cynigion sy'n ymwneud â defnydd tir. |
| Adroddiad Adolygu | Yn nodi beth sydd angen ei newid a pham yn y CDLl. |
| Ffin yr Anheddiad | Mae ffin anheddiad yn offeryn cynllunio sy'n cynnwys llinell ddamcaniaethol wedi'i thynnu ar fap i nodi ffin anheddiad. Fel arfer ni chaniateir datblygiad tai oni bai ei fod o fewn y ffin hon ac ystyrir bod ardaloedd y tu allan iddi yn gefn gwlad. |
| Hierarchaeth Aneddiadau | Dosbarthir aneddiadau o fewn yr hierarchaeth yn ôl poblogaeth a lefel y gwasanaethau yn yr anheddiad. Bydd rhai aneddiadau bach iawn sydd â gwasanaethau cyfyngedig iawn neu ddim gwasanaethau o gwbl yn syrthio y tu allan i'r hierarchaeth ac fe'u diffinnir fel cefn gwlad. |
| Hunan-adeiladu / adeiladu tai yn ôl y gofyn | Datblygiad tai pwrpasol wedi'i gomisiynu a'i reoli gan y meddiannydd bwriedig. Ym mhob achos p'un a yw cartref yn un wedi ei hunan-adeiladu neu ei adeiladu yn ôl y gofyn, bydd perchennog cychwynnol y cartref yn rhoi mewnbwn sylfaenol i'w ddyluniad a'i gynllun terfynol. |

# Cynnwys

Byrfoddau....................................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Rhestr Termau.................................................................................. **Error! Bookmark not defined.**

**Cyflwyniad** ........................................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

*Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol* ........................................................................................ 5

*Ymgynghoriad ar yr Opsiynau Strategol* ...................................................................................... 5

*Gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned* ........................................ 5

*Camau nesaf* ........................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 1: Adborth o'r Gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned Gorffennaf 2018................................................................................................................. 6

# Cyflwyniad

## *Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol*

Mae Cyngor Sir Penfro yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl)– **Cynllun Datblygu Lleol 2**. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd yn darparu fframwaith polisi diwygiedig ac wedi'i ddiweddaru i arwain datblygu y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a bod yn sail i benderfyniadau cynllunio a wneir gan y Cyngor Sir. Yn ystod yr **Adolygiad,** bydd y Cynllun Datblygu Lleol presennol (hyd at 2021) yn parhau yn ei le nes mabwysiadir Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl2).

## *Ymgynghoriad ar yr Opsiynau Strategol*

Yn ystod y cyfnod rhwng 16 Gorffennaf a 10 Medi 2018, cynhaliodd Cyngor Sir Penfro ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol ar **Opsiynau Strategol** ar gyfer CDLl 2. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cyhoeddwyd dau bapur, sef un ar **Faterion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft** ac un ar **Opsiynau Tai Strategol**. Roedd yr ail bapur, **Opsiynau Tai Strategol, yn nodi** senarios amrywiol ar gyfer lefelau twf tai yn y dyfodol ac opsiynau bras ar gyfer lleoliadau/polisi i'w hystyried er mwyn bodloni'r twf hwn. Roedd y ddwy ddogfen ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cyswllt**.** Cafodd pawb a ddangosodd ddiddordeb yn y CDLl wybod am yr ymgynghoriad anffurfiol. Mae **Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Anffurfiol ar Opsiynau Strategol CDLl 2** ar wahân yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

## *Gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned*

Yn ogystal ag ymgynghoriad ysgrifenedig anffurfiol, cynhaliodd Cyngor Sir Penfro nifer o **weithdai ymgysylltu** gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned ym mis Gorffennaf 2018. Roedd y gweithdai hyn yn canolbwyntio ar yr **Opsiynau Tai Strategol**. Rhoddir crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd yn y gweithdai hyn yn **Nhabl 1** isod.

## *Camau nesaf*

Bydd yr adborth a dderbyniwyd trwy'r ymgynghoriad ysgrifenedig anffurfiol ac yn y gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu hystyried a'u cyflwyno wrth ddatblygu **Strategaeth a Ffafrir** CDLl 2. Mae Cyngor Sir Penfro yn disgwyl cyhoeddi ei **Strategaeth a Ffafrir** i'w ymgynghori'n gyhoeddus yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2018.

## Tabl 1: Adborth o’r Gweithdai gyda Rhanddeiliaid, Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned mis Gorffennaf 2018

| **Sesiwn Grŵp a Rhif y Grŵp** | **Ymateb i Gwestiynau’r Ymgynghoriad** |
|---|---|
| | |
| | **C1. Pa opsiwn twf ydych chi’n meddwl byddai’n cyflawni Gweledigaeth ddrafft y cynllun orau?**<br>**Opsiwn 1 – 196 anheddiad y flwyddyn**<br>**Opsiwn 2 – 340 anheddiad y flwyddyn**<br>**Opsiwn 3 – 408 anheddiad y flwyddyn**<br>**Opsiwn 4 – 443 anheddiad y flwyddyn**<br>**Opsiwn 5 – 416 anheddiad y flwyddyn**<br>**Opsiwn 6 – 572 anheddiad y flwyddyn** |
| **Seminar y Rhanddeiliaid (19 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Cefnogi Opsiynau 4, 5 a 6 |
| Grŵp 2 | Cefnogi Opsiwn 3 |
| Grŵp 3 | Cefnogi Opsiwn 5 (cefnogi Opsiynau 3 a 4 hefyd) |
| Grŵp 4 | Cefnogi Opsiynau 3-5 |
| | |
| **Digwyddiad Diwrnod Seminarau Cynghorau Tref a Chymuned (18 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Cefnogi Opsiynau 3 a 4 |
| Grŵp 2 | Ffafrio Opsiynau 3 a 4 (Cefnogi Opsiwn 5 hefyd) |
| Grŵp 3 | Dim un yn cael ei ffafrio’n glir |
| | |
| **Digwyddiad Seminarau Cynghorau Tref a Chymuned Gyda’r Nos (24 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Ffafrio Opsiwn 4 neu 5. |

| | |
|---|---|
| Grŵp 2 | Angen opsiynau sy’n cael eu hysgogi gan yr economi sy’n gysylltiedig â swyddi. |
| | |
| **Seminar i Aelodau 16 Gorffennaf** | |
| Y gogledd a’r gogledd-ddwyrain | Opsiwn 5 (Cefnogi Opsiynau 4 a 6 hefyd) |
| Y canolbarth | Cefnogi dull wedi’i arwain gan aneddiadau (Opsiynau 4-6) |
| Y de a’r de-orllewin | Cefnogi opsiynau 3-5 yn gyffredinol |
| Y de-ddwyrain | Opsiwn 6 er mwyn rhoi hyblygrwydd a darparu rhwng 450-500 y flwyddyn |
| | |

**Casgliadau:**
Derbyniwyd cymysgedd amrywiol o farnau, ond mae’n werth nodi nad oedd unrhyw grŵp yn cefnogi Opsiwn 1 (angen 196 anheddiad y flwyddyn, yn seiliedig ar ragolygon LlC) nag Opsiwn 2 (yn seiliedig ar dueddiadau mudo tymor byr). Er y cafodd nifer o opsiynau eu hamlygu gan y grwpiau, Opsiynau 3-5 oedd y rhain ar y cyfan, a byddai pob un ohonyn nhw’n darparu 400-450 o aneddiadau bob blwyddyn, yn seiliedig naill ai ar dueddiadau mudo tymor hir neu gyfraddau adeiladu cyfartalog dros gyfnod o 5-10 blwyddyn. Roedd un grŵp o Aelodau’n cefnogi Opsiwn 6, sef darpariaeth bresennol y CDLl o 572 o aneddiadau bob blwyddyn, ond ar y sail y byddai hyn yn darparu hyblygrwydd gyda’r nod o ddarparu 450-500 o aneddiadau'r flwyddyn.

Mae’n ymddangos bod consensws cyffredinol ynghylch cefnogi darpariaeth uwch na’r lefelau a amlygwyd yn rhagolygon LlC a bodloni anghenion yn seiliedig ar asesiad o dueddiadau mudo yn y tymor hwy (15 mlynedd) ac yn unol â chyfartaledd cyfraddau adeiladu dros y 5-10 blynedd diwethaf. Dywedodd un person yn y grŵp rhanddeiliaid bod cau Purfa Aberdaugleddau yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar lefelau mudo allanol a’r boblogaeth ar y cyfan, o ystyried ei safle fel cyflogwr mawr lleol, gan ddatgan y byddai defnyddio cyfnod hwy o amser i asesu mudo yn ddilys ar y sail hon. Dywedodd y grwpiau yn y sesiynau y byddai darparu ar lefelau uwch na rhagolygon LlC yn cefnogi’r diwydiant adeiladu lleol, galluogi rhagor o dai fforddiadwy (o ystyried ôl-groniad anghenion Sir Benfro), cyflwyno proffil mwy cytbwys o’r boblogaeth ac yn darparu rhagor o gyfle i bobl ifanc aros yn eu cymunedau. Dywedodd nifer o grwpiau y byddai strategaeth economaidd i gyflwyno swyddi a thai â chymorth hefyd yn hanfodol.

| | |
|---|---|
| | **C2. Ydych chi’n cefnogi’r hierarchaeth aneddiadau sy’n seiliedig ar wasanaethau?** |

| **Seminar i Randdeiliaid (19 Gorffennaf)** | |
|---|---|
| Grŵp 1 | Ydyn<br>Wedi awgrymu sgôr uwch ar gyfer Swyddfeydd Post a neuaddau cymunedol i adlewyrchu nifer y grwpiau cymunedol sy'n eu defnyddio. |
| Grŵp 2 | Ydyn<br>Wedi awgrymu y dylid rhoi mwy o bwyntiau i ddarpariaeth trafnidiaeth gynaliadwy. |
| Grŵp 3 | Ydyn<br>Dylid rhoi mwy o bwysau i ysgolion, tafarndai a neuaddau cymunedol. Wedi awgrymu y dylid israddio Swyddfeydd Post gan eu bod nhw'n cael eu defnyddio'n llai aml. |
| Grŵp 4 | Ydyn<br>Wedi awgrymu y dylai ysgolion, siopau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus fod yn 3 gwasanaeth allweddol.<br>Nid oes gan Swyddfeydd Post yr un pwysigrwydd bellach, a dylid eu hisraddio. Dylai siopau aros yr un fath. Dylid rhoi mwy o bwysoliad i drafnidiaeth gynaliadwy. Dylai Neuaddau Cymunedol ystyried nifer y defnyddwyr. Dylid pwysoli cyflogaeth leol a defnyddio ffigwr nifer y swyddi lleol. |
| | |
| **Seminar Cynghorau Tref a Chymuned (18 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Na, ond nid oedden nhw'n gallu cynnig dull amgen. |
| Grŵp 2 | Ydyn<br>Dylid rhoi mwy o bwysau i setliadau sydd â gwasanaethau rheilffordd a mynediad ffordd da. |
| Grŵp 3 | Ydyn<br>O ran ysgolion – dylid meddwl am ba ystod oedran maen nhw'n ei wasanaethu<br>Os yw'r aneddiadau'n agos at ei gilydd, dylid edrych ar sgôr |

| | |
|---|---|
| | cyfanredol weithiau<br>Dylid edrych ar gyflogaeth/busnesau lleol e.e. mae Folly Farm yn cael effaith fawr ar Fegeli. |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (24 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Ydyn<br>Dylid sgorio gorsafoedd petrol, yn ogystal â gwasanaethau cyfleus cyhoeddus. Dylid cynyddu pwysoliad neuaddau cymunedol. Dylid grwpio Llanteg a Llanteglos gyda'i gilydd. |
| Grŵp 2 | Na<br>Dylid edrych ar y pellteroedd i wasanaethau a'r boblogaeth. |
| | |
| **Seminar i Aelodau (16 Gorffennaf)** | |
| Y gogledd a'r gogledd-ddwyrain | Ydyn<br>A oes modd cynnwys dadansoddiad o'r gymhariaeth gyda lle mae aneddiadau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu gosod yn y sgoriau<br>Dylid rhoi sgôr uwch i crèche<br>Cwestiwn ar ddiffiniad siop<br>Dylai ysgol gael 5 pwynt |
| Y canolbarth | Ydyn<br>Ond dylid addasu'r sgoriau ac ystyried y cysylltiadau rhwng aneddiadau e.e. llwybrau aml-ddefnyddiwr sy'n cysylltu pentrefi â lleoedd sydd â gwasanaethau.<br>Rhoi mwy o bwysau i ysgolion. |
| Y de a'r de-orllewin | Ydyn |
| Y de-ddwyrain | Ydyn – wedi darparu twf priodol ar bob lefel yr hierarchaeth. |
| | |
| **Casgliadau:**<br><br>Ceir rhywfaint o gefnogaeth am y syniad o ddefnyddio hierarchaeth aneddiadau yn seiliedig at asesiad o wasanaethau. | |

Rhoddodd rhai grwpiau sylwadau ar y potensial ar gyfer edrych ar berthynas aneddiadau ag aneddiadau eraill gyda gwasanaethau. Cafodd yr opsiwn hwn ei drafod ymhellach yn yr adran Opsiynau Gwledig dan y term 'clystyrau'.

Gwnaed nifer o bwyntiau manwl am y system sgorio, a derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn gwrthdaro. Ar y cyfan, roedd hi'n ymddangos bod argymhelliad i sgorio aneddiadau sydd ag ysgolion a chysylltiadau trafnidiaeth rheolaidd yn uwch yn cael cefnogaeth gref, gyda nifer o grwpiau'n awgrymu bod rôl y Swyddfa Bost yn llai pwysig erbyn hyn. Gwneir addasiadau i'r system sgorio arfaethedig er mwyn ystyried yr awgrymiadau hyn.  Hefyd, rhoddir rhagor o bwysau i bresenoldeb neuadd gymunedol mewn setliad, sy'n ei symud i'r categori gwasanaeth lefel uchaf. Bellach, rhoddir pwyntiau ychwanegol i gyfleusterau crèche a meysydd chwarae plant. Er bod manteision i'r awgrym i asesu nifer y defnyddwyr, mae'n anodd casglu'r wybodaeth hon mewn modd dibynadwy, felly ni fydd yr awgrym hwn yn cael ei ymgorffori. Hefyd, awgrymwyd y gellir ychwanegu gwybodaeth am nifer y swyddi lleol mewn ardal a sgôr yn gysylltiedig â hynny, ond yn sgil ymateb anghyflawn i'r holiaduron Cyfleusterau Gwledig a anfonwyd yn 2017, nid yw'n bosibl ymgorffori hyn ar hyn o bryd. Nid oes data o wefan Nomis ar gael ar lefel anheddiad, ac mae pryderon ynghylch cywirdeb datgrynhoi'r wybodaeth hon i lefel mor fach o lefel y Sir. Rhoddwyd ystyriaeth eisoes i lefelau'r boblogaeth ar y cyfan mewn anheddiad.

Roedd cefnogaeth ar gyfer Cyngor Sir Penfro yn datblygu nodyn gwybodaeth ar gyfer yr aneddiadau sydd wedi'u rhannu rhwng awdurdodaeth gynllunio'r Cyngor Sir ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, sy'n nodi eu lle yn hierarchaeth y ddau Awdurdod.

| | |
|---|---|
| | |
| | **C3. Ydych chi'n cytuno gyda dosbarthiad y setliadau fel Trefol/Gwledig a'u safle yn yr hierarchaeth?** |
| **Seminar y Rhanddeiliaid (19 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Ydyn – ond dylai Arberth fod yn Drefol |
| Grŵp 2 | Dylai Arberth fod yn Drefol. Mae Pont Fadlen yn rhan o Hwlffordd. |
| Grŵp 3 | Dylai Arberth fod yn Drefol. |
| Grŵp 4 | Ni ddylech ddefnyddio'r term Trefi Hub, mae wedi dyddio erbyn hyn. Dylid asesu Trefi a dadansoddi'r gwasanaethau ynddynt/beth yw hierarchaeth aneddiadau Trefi. |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (18 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Arberth – dylai fod yn Drefol. Dylid rhannu'r trefi'n rhai sydd angen |

| | |
|---|---|
| | eu hadfywio a rhai sy'n gwneud yn iawn. |
| Grŵp 2 | Dylai Arberth fod yn Dref Hub. Nid yw'n rhesymegol bod Wdig yn dref ond nid yw Arberth yn dref. Dylai Llandyfái fod yn uwch ar yr hierarchaeth aneddiadau. |
| Grŵp 3 | Mae Arberth yn dref wledig. Mae Pont Fadlen yn rhan o Hwlffordd yn yr un modd â Steynton a Hubberston/Hakin yn rhan o Aberdaugleddau. |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (24 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Dylid ystyried Pont Fadlen yn endid ar wahân i Hwlffordd. |
| Grŵp 2 | Dylid ystyried Arberth yn wledig. Mae'n gwasanaethu ardal wledig eang iawn. Dylai Pont Fadlen fod ar wahân i Hwlffordd. |
| | |
| **Seminar i Aelodau (16 Gorffennaf)** | |
| Y gogledd a'r gogledd-ddwyrain | Dylai Arberth fod yn drefol, hapus gyda'r holl ddosbarthiadau eraill. |
| Y canolbarth | Dylai Pont Fadlen fod yn bentref gwledig ar wahân i Hwlffordd. |
| Y de a'r de-orllewin | Pam mae Tiers Cross a Thornton ar yr un lefel yn yr hierarchaeth? |
| Y de-ddwyrain | Cytuno ar y cyfan gyda'r rhaniad. Mae Llanteg a Llanteglos yn gysylltiedig, a dylid eu hystyried gyda'i gilydd yn yr un modd â Chaeriw/Sageston. Dylid ailystyried aneddiadau fel Milton sydd â chysylltiadau da oherwydd rhwydweithiau trafnidiaeth ond sydd wedi colli siop. (Dylid pwysoli ysgolion a crèches yn uwch). |
| | |

**Casgliadau:**
Mae pobl yn cytuno ar y cyfan â'r dosbarthiad Trefol/Gwledig ar draws yr holl grwpiau.

Roedd dwy ardal lle mynegwyd barn gwahanol, yn enwedig yn achos Arberth a ph'un a yw'n anheddiad trefol neu wledig a Pont Fadlen (p'un a yw'n rhan o Hwlffordd ai peidio).

Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer ystyried Llanteg a Llanteglos gyda'i gilydd fel un anheddiad, o ganlyniad i'r rhyngweithio cryf rhwng y ddau.

| | |
|---|---|
| | |
| | **C4. Pa Opsiwn Gofodol ydych chi'n meddwl sy'n cyflawni Gweledigaeth Ddrafft y Cynllun orau?**<br><br>**Opsiwn 1: Rhaniad 70% Trefol, 30% Gwledig**<br>**Opsiwn 2: Rhaniad 60% Trefol, 40% Gwledig**<br>**Opsiwn 3: Rhaniad 50% Trefol, 50% Gwledig** |
| **Seminar i Randdeiliaid (19 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Opsiwn 1 (Roedd cefnogaeth i Opsiwn 2 hefyd)<br>Mwyaf cynaliadwy ar gyfer cyflwyno gwasanaethau. |
| Grŵp 2 | Opsiwn 1 neu Opsiwn 2 |
| Grŵp 3 | Ffafrio Opsiwn 2 ond roedd cefnogaeth i Opsiwn 3 hefyd |
| Grŵp 4 | Opsiwn 2 (Roedd cefnogaeth i Opsiwn 1 hefyd) |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (18 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Opsiwn 3 (Roedd cefnogaeth i Opsiwn 2 hefyd) |
| Grŵp 2 | Cefnogi pob opsiwn |
| Grŵp 3 | Cefnogaeth ar gyfer pob opsiwn, Opsiwn 2 gafodd y mwyaf o gefnogaeth. |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (24 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Opsiwn 3 |
| Grŵp 2 | Opsiwn 1 |
| | |
| **Seminar i Aelodau (16 Gorffennaf)** | |
| Y gogledd a'r gogledd-ddwyrain | Cefnogi Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 |
| Y canolbarth | Barn gymysg – mwy o gefnogaeth i Opsiynau 2 a 3 nac 1. |
| Y de a'r de-orllewin | Barn gymysg – cafodd Opsiwn 2 1 bleidlais yn fwy nag Opsiynau 1 a 3. |

<table>
<tr><td>Y de-ddwyrain</td><td>Wedi’u rhannu rhwng Opsiwn 2 ac Opsiwn 3.</td></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Casgliadau:<br>Derbyniwyd barn amrywiol ar y rhaniad gofodol cyffredinol y dylai’r Cynllun ei ddarparu, gyda rhanddeiliaid yn amlygu manteision ac anfanteision i’r holl opsiynau. Roedd y materion i’w hystyried yn cynnwys cefnogi cymunedau gwledig, yr effaith ar y Gymraeg, blaenoriaethu cymorth ar gyfer adfer trefi, cysylltu cyflogaeth â darpariaeth tai, blaenoriaethu tir a ddatblygwyd yn flaenorol, darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy, effeithiau ar y tirlun, effeithiau ar gostau cyflenwi gwasanaethau i gyrff gwasanaeth cyhoeddus a newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i allyriadau ceir. Ar y cyfan, mae cyflwyno Opsiwn 2 (60% Trefol a 40% Gwledig) yn debygol o ddarparu cymorth i gymunedau Trefol a Gwledig, ond gyda phwyslais gwell ar y lleoliadau sydd â mynediad gwell i wasanaethau.</td></tr>
<tr><td></td><td>C5. Pa opsiynau ar gyfer yr ardaloedd gwledig sy’n cyflwyno Gweledigaeth y Cynllun orau?<br>C6. Pa opsiynau ydych chi’n eu cefnogi?</td></tr>
<tr><td>Seminar i Randdeiliaid (19 Gorffennaf)</td><td></td></tr>
<tr><td>Grŵp 1</td><td>Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth<br>Clystyrau – cefnogaeth<br>Mewnlenwi a thalgrynnu – dim cefnogaeth<br>Cefnogi tai i’r farchnad gyda chyfraniadau i dai fforddiadwy</td></tr>
<tr><td>Grŵp 2</td><td>Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth<br>Clystyrau – cefnogaeth, cysylltedd yn hanfodol<br>Mewnlenwi a thalgrynu – dim cefnogaeth oni bai ei fod yn mewn ffiniau aneddiadau, os bydd y tu allan i hierarchaeth aneddiadau – pam ddylai ddigwydd yn y lleoliad hwnnw?<br>Gall tai fforddiadwy mewn ardaloedd mwy gwledig fod yn wrthgynhyrchiol gan fod angen i bobl gael mynediad i wasanaethau.</td></tr>
<tr><td>Grŵp 3</td><td>Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth<br>Clystyrau – cefnogaeth<br>Mewnlenwi – dylai fod ar gyfer tai fforddiadwy yn unig, ac yn agos at anheddiad</td></tr>
<tr><td>Grŵp 4</td><td>Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth ond byddai angen adlewyrchu cymeriad unigol yr aneddiadau</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Clystyrau – cefnogaeth<br>Mewnlenwi a thalgrynnu – gallai weithio ond byddai angen polisi wedi'i ddiffinio'n glir<br>Marchnad/fforddiadwy – dylent fod lle mae gwasanaethau yn unig |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (18 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth<br>Clystyrau – cefnogaeth<br>Cefnogaeth ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn unig |
| Grŵp 2 | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth<br>Clystyrau – cefnogaeth<br>Mewnlenwi a thalgrynnu – dylid cynnwys cyfleoedd ar gyfer mewnlenwi a thalgrynnu o fewn yr anheddiad<br>Dylid caniatáu tai fforddiadwy lle ceir rhai gwasanaethau er mwyn osgoi ynysu. |
| Grŵp 3 | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth ond mae angen eu hadolygu<br>Clystyrau – gallant weithio mewn rhai achosion ond ni ddylid eu defnyddio ym mhobman<br>Eu barn oedd nad yw 100% tai fforddiadwy mewn pentrefi lleol bach wedi gweithio, gan nad oes gwasanaethau allweddol yno i gefnogi pobl. Cefnogi tai i'r farchnad yn y lleoliadau hyn ond gyda chyfraniadau mawr tuag at dai fforddiadwy. |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (24 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth ond gyda chlustogfa er mwyn caniatáu ar gyfer twf ar hyd ymyl yr anheddiad.<br>Clystyrau – cefnogaeth<br>Dylid caniatáu eiddo hunanadeiladu hefyd mewn pentrefi lleol yn ogystal â Thai Fforddiadwy. |
| Grŵp 2 | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth ar eu cyfer ond gyda rhagor o |

| | |
|---|---|
| | hyblygrwydd o fewn y ffin ar gyfer twf.<br>Clystyrau – cefnogaeth – mae pellter yn bwysig, yn ogystal â pherthnasoedd diwylliannol ac ymarferol<br>Mewnlenwi a thalgrynnu – caniatáu o fewn ffiniau'r anheddiad<br>Tai fforddiadwy/i'r farchnad – angen y ddau mewn Pentrefi Lleol |
| | |
| **Seminar i Aelodau (16 Gorffennaf)** | |
| Y gogledd a'r gogledd-ddwyrain | Ffiniau aneddiadau – cefnogi hyn gyda chymysgedd o fewnlenwi a thalgrynnu<br>Clystyrau – cefnogaeth<br>Mewnlenwi a thalgrynnu - cefnogaeth gyda ffiniau aneddiadau mewn rhai ardaloedd<br>Eisiau galluogi trosi adeiladau traddodiadol ar ffermydd. |
| Y canolbarth | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth ond gyda hyblygrwydd ar gyfer twf o fewn y rhain<br>Clystyrau – cefnogaeth<br>Mewnlenwi a thalgrynnu - cefnogaeth<br>Tai fforddiadwy/i'r farchnad – cefnogi cymysgedd o dai i'r farchnad a thai cymdeithasol mewn pentrefi. |
| Y de a'r de-orllewin | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth ar gyfer yr hierarchaeth gyfan<br>Clystyrau – mae angen rhagor o fanylion am y dull hwn<br>Mewnlenwi a thalgrynnu - cefnogaeth, dull hybrid posibl lle mae ardaloedd y tu allan i ffiniau'r aneddiad ond sydd gerllaw yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer datblygu.<br>Marchnad/Fforddiadwy – ni ddylid rhoi gwaharddiad cyffredinol ar dai i'r farchnad. |
| Y de-ddwyrain | Ffiniau aneddiadau – cefnogaeth.<br>Clystyrau – cefnogaeth ar gyfer y rhain. Dylid ystyried dalgylchoedd ysgolion.<br>Mewnlenwi a thalgrynu – cefnogaeth gan gynnwys ffermydd. |

| | |
|---|---|
| | |
| | |

**Casgliadau:**
Cefnogaeth gref gan yr holl grwpiau ar gyfer defnyddio ffiniau aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau, ond soniodd nifer ohonynt fod angen adlewyrchu nodweddion penodol aneddiadau. Hefyd, cafwyd cefnogaeth ar gyfer defnyddio dull mwy hael wrth ddiffinio ffiniau aneddiadau a chyflwyno rhagor o gyfleoedd ar gyfer mewnlenwi a thalgrynnu y tu mewn iddynt.

Cafwyd cefnogaeth eang ar gyfer clystyrau, ond cafodd ei gydnabod efallai na fyddai'r dull hwn yn gweithio ym mhob man.

Roedd y farn am fewnlenwi a thalgrynnu yn gymysg, gyda rhywfaint o gefnogaeth a rhywfaint o bryder ynghylch sut gallai'r dull hwn danseilio ffocws ar ddatblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy.

Ar gyfer y Pentrefi Lleol lleiaf, cafwyd barnau amrywiol ar ba fathau o dai y dylid eu caniatáu, ond mae'n ymddangos bod y mwyafrif yn ffafrio rhywfaint o ddarpariaeth tai i'r farchnad, gyda chyfraniadau mwy tuag at dai fforddiadwy.

| | **C7. A hoffech chi weld unrhyw Opsiynau Tai eraill yn cael eu hystyried?** |
|---|---|
| | |
| **Seminar i Randdeiliaid (19 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| Grŵp 2 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| Grŵp 3 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| Grŵp 4 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (18 Gorffennaf)** | |
| Grŵp 1 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| Grŵp 2 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| Grŵp 3 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| | |
| **Seminar i Gynghorau Tref a Chymuned (24 Gorffennaf)** | |

| | |
|---|---|
| Grŵp 1 | Mae angen meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig ar gyfer dyraniad a dulliau ar gyfer aneddiadau sy'n agos at ardaloedd cynllunio Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, neu wedi'u rhannu ar draws y rhain. |
| Grŵp 2 | Dim opsiynau wedi'u cynnig. |
| | |
| **Seminar i Aelodau (16 Gorffennaf)** | |
| Y gogledd a'r gogledd-ddwyrain | Dylai'r tir fod ar gael ar gyfer Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn unig. |
| Y canolbarth | Potensial ar gyfer anheddiad newydd yn rhywle am gael ei ystyried. Safleoedd llai yn fwy cyflawnadwy na safleoedd mawr o bosibl. |
| Y de a'r de-orllewin | Dim opsiynau wedi'u cyflwyno. |
| Y de-ddwyrain | Potensial ar gyfer anheddiad newydd – Cross Hands wedi'i awgrymu. Mae angen ystyried gweithio gartref a swyddfeydd cartref. Potensial ar gyfer archwilio gofyniad cysylltiad lleol ar gyfer tai i'r farchnad. |
| **Casgliadau:** Amlygodd nifer o grwpiau eraill opsiynau pellach. Roedd y rhain yn cynnwys bod yr angen am ddull cydgysylltiedig ar gyfer aneddiadau wedi'u rhannu rhwng Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y potensial ar gyfer aneddiadau cwbl newydd, yr angen ar gyfer cefnogi Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, cefnogi gweithio gartref a pholisi cysylltu lleol posibl ar gyfer tai i'r farchnad. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu harchwilio ymhellach wrth i waith ar y CDLl ddatblygu. | |